

Newyddlen Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn

Cyhoeddiad 2

1. Cyflwyniad

Croeso i'r ail newyddlen Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd (CDLI ar y Cyd). Bydd y newyddlenni yn rhoi gwybod i chi am sut mae'r gwaith ar y CDLI ar y Cyd, sy'n cael ei ddatblygu gan Gyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd, yn dod yn ei flaen. Unwaith y bydd wedi'i fabwysiadu, bydd y CDLI ar y Cyd yn rhoi'r weledigaeth ar gyfer datblygu ym Môn a Gwynedd, ac yn rhoi arweiniad i benderfyniadau cynllunio drwy osod polisiau a chynigion ar gyfer datblygu a defnyddio tir fydd yn cwrdd ag anghenion y gymuned.

Mae'r UPCC wedi bod yn brysur iawn dros y misoedd diwethaf, a bydd y newyddlen hon yn eich diweddarau ar:

- Y Prif Lwyfannau Cyhoeddus a'r Amserlen ar gyfer Cynhyrchu'r CDLI ar y Cyd - y Cytundeb Cyflawni
- Lle rydym ni arni nawr wrth baratoi'r CDLI ar y Cyd
- Y Gofrestr Safleoedd Posib
- Adnabod y Prif Faterion, y Weledigaeth a'r Amcanion a datblygu cyfeiriad strategol y Cynllun
- Astudiaethau cefndir
- Arfarniad Cynladwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol
- Asesiad Effaith Cydraddoldeb
- Asesiad Effaith Iechyd
- Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Nodwch mai dim ond yr ardal y tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri y bydd y CDLI ar y Cyd yn gyfrifol amdani yng Ngwynedd. Ceir manylion am GDLI Eryri ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri <http://www.eryri-npa.gov.uk/>

Mae paratoi'r CDLI ar y Cyd yn broses hir. Bydd yn cymryd tua phedair blynedd i gwblhau'r cynllun, a dim ond ar ôl ei fabwysiadu'n llawn y bydd yn disodli'r Cynlluniau Datblygu presennol.

Bwriad y rhifyn hwn yw rhoi diweddariad i chi ar y newidiadau sydd wedi digwydd ers cyhoeddi'r newyddlen gyntaf ym mis Awst 2011.

Bydd yn eich atgoffa am broses y CDLI ar y Cyd, y gwaith paratoi mae'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC) wedi'i wneud ar ran y ddau Gyngor hyd yma, a sut y gallwch chi fod yn rhan o'r ymgynghori yn y dyfodol.

Yn y Cyhoeddiad yma:


<i>Cyflwyniad</i>	1
<i>Amserlen CDLI ar y Cyd</i>	2
<i>Lle rydym ni arni nawr?</i>	3
<i>Adnabod y Prif Faterion</i>	4
<i>Y Gofrestr Safleoedd Posib</i>	5
<i>Astudiaethau Cefndir</i>	6
<i>Astudiaethau Amrywiol</i>	7
<i>Camau Nesaf</i>	8
<i>Hoffech Wybod Mwy?</i>	9
<i>Cyhoeddiad Nesaf</i>	10

2. Amserlen Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

Gellir rhannu'r broses o baratoi'r CDLI ar y Cyd i 7 cam (gweler ffigur 1). Y Cytundeb Cyflawni yw'r ddogfen sy'n gosod yr amserlen ar gyfer cynhyrchu'r CDLI ar y Cyd, a sut a phan gall budd-ddeiliaid eraill ddod ynghlwm â'r broses. Mae'r Cytundeb Cyflawni ar gael i'r cyhoedd i'w weld yn Neuadd y Dref, Bangor, ac ar wefannau'r ddau Gyngor, www.anglesey.gov.uk a www.gwynedd.gov.uk

Ers cyhoeddi'r newyddlen gyntaf, cymeradwywyd Cytundeb Cyflawni'r CDLI ar y Cyd gan y ddau Gyngor a Llywodraeth Cymru (LIC) ym mis Tachwedd 2011. Mae ffigur 2 yn dangos yr amserlen gyfredol ar gyfer mabwysiadu'r CDLI ar y Cyd, fel y cymeradwywyd gan Bwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd Môn a Gwynedd ar 22 Mehefin 2012.

Ffigur 1: Diagram o'r broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol



Ffigur 2: Amserlen CDLI ar y Cyd

Cam CDLI ar y Cyd	Dyddiad
Paratoi'r Ddogfen Strategaeth a Ffafir	Tachwedd 2012
Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffafir	Ionawr 2013
Ymgynghoriad ar y Cynllun Drafft Cyn-Adneuo	Hydref 2013
Archwiliad Cyhoeddus	Ebrill 2015
Mabwysiadu'r CDLI ar y Cyd	Ebril 2016

3. Lle rydym ni arni nawr wrth baratoi'r CDLI ar y Cyd?

O ran y broses baratoi, rydym yn ganol Cam 2. Diben y cam hwn yw gwella'r sail tystiolaeth a datblygu'r materion, gweledigaeth, amcanion a strategaethau posib ar gyfer yr ardal, gan gynnwys y cyhoedd a budd-ddeiliaid eraill yn y broses.



4. Adnabod y Prif Faterion, y Weledigaeth a'r Amcanion a datblygu cyfeiriad strategol y Cynllun.

Dechreuwyd ymgysylltu ar y Prif Faterion, y Weledigaeth a'r Amcanion ar 8 Tachwedd 2011 am gyfnod o chwe wythnos. Ar gais, estynnwyd y cyfnod tan 27 Ionawr 2012 i roi cyfle pellach i gyflwyno sylwadau. Bwriad y Cyngor yw cynnwys cymaint o bobl â phosib wrth baratoi'r CDLI ar y Cyd. Rydym wedi ymgysylltu'n eang yn ystod y cyfnod hwn felly: mae hyn wedi cynnwys cyflwyniadau a thrafodaethau gydag Aelodau etholedig, grwpiau o blant a phobl ifanc a phobl hŷn, y Grŵp Budd-ddeiliaid Allweddol, a chynhyrchu dogfen drafod er mwyn hybu pobl i drin a thrafod y cynllun. Anfonwyd llythrau at bawb sydd wedi cofrestru ar restr ddsbarthu'r CDLI ar y Cyd, i godi ymwybyddiaeth. Hysbysebwyd y Prif Faterion, y Weledigaeth a'r Amcanion yn y papurau newydd lleol yn ogystal. Rhoddwyd copïau papur o'r dogfennau ym mhob un o brif swydd-feydd y Cynghorau a llyfrgelloedd cyhoeddus lleol, ac maent ar gael i'w gweld a'u lawr lwytho ar-lein.

Daeth yr ymgynghoriad ar adroddiad y Prif Faterion, y Weledigaeth a'r Amcanion i ben ar 27 Ionawr 2012. Hoffai'r Cyngor ddiolch i bawb a roddodd sylwadau. Cafwyd tua 70 o ymatebion oddi wrth wahanol grwpiau, yn cynnwys ymgynghorwyr, datblygwyr, Cynghorau Cymuned, asiantaethau allweddol, sefydliadau cenedlaethol eraill, adrannau mewnol y Cyngor a'r cyhoedd.

Cafwyd adborth gwerthfawr iawn o'r sesiynau gyda grwpiau gwahanol, a'r ymgysylltu drwy'r post, ac mae hyn wedi helpu'r Cyngor i adnabod y prif faterion, a mireinio'r weledigaeth a'r amcanion drafft, a dewis lefel twf tai addas a phatrwm dosbarthu cyffredinol ar gyfer y CDLI ar y Cyd. Gellir gweld adroddiad o grynodedb o'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgysylltu ar wefan pob Cyngor www.gwynedd.gov.uk neu www.ynysmon.gov.uk

Ar sail asesiad o'r sylwadau a dderbyniwyd, mae'r Aelodau wedi cytuno ar gyfres o faterion, gweledigaeth, cyfres o amcanion ac opsiwn o ran lefel twf tai a fydd yn annog 7665 o dai dros gyfnod y Cynllun (2011 – 2026) ar safleoedd sydd gan ganiatâd cynllunio'n barod, trwy addasu adeiladau ac ar safleoedd newydd. Bydd yr opsiwn hwn yn cyfrannu tuag at ddarparu tai fforddiadwy, atal mwy o leihad yn y gweithlu a'r boblogaeth ieuengach, ond ar yr un pryd yn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd.

Hefyd, fe gytunodd y Cynghorau:

- Canolbwyntio'r datblygiadau a'r adfywio mwyaf ar y prif aneddeleoedd a'r safleoedd strategol yno
- Cefnogi datblygu sy'n adlewyrchu maint, swyddogaethau a chpasiti amgylcheddol a diwylliannol y rhwydwaith o wahanol aneddiadau allweddol a phentrefi allweddol
- Cefnogi mân ddatblygu, mewn mân bentrefi difiniedig ac yng nghefn gwlad, sy'n helpu i gynnal gwasanaethau a chyfleusterau ar gyfer cymunedau lleol

Bydd y Cynghorau yn parhau i fonitro'r dystiolaeth o ran yr angen am dai newydd, a monitro'r ddarpariaeth wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen i baratoi'r Strategaeth a Ffafir. Eir ag adroddiad pellach i'r Cynghorau yn ystod hydref 2012, fydd yn rhoi'r argymhelliad ar gyfer Strategaeth a Ffafir.



5 - Y Gofrestr Safleoedd Posib

Ym mis Hydref 2011, estynnwyd gwahoddiad gan yr UPCC, ar ran y Cynghorau, i asiantwyr, tiffeddianwyr ac aelodau o'r cyhoedd i gyflwyno safleoedd posib i'w cynnwys yn y CDLI ar y Cyd, er mwyn eu datblygu neu eu gwarchod, ac er mwyn bodloni angenion y cymunedau ym Môn a Gwynedd. Yn Ebrill 2012 crëw'yd Cofrestr Safleoedd Posib sy'n rhestru'r holl safleoedd a gyflwynwyd gan unrhyw un sydd â diddordeb mewn tir. Ar hyn o bryd, mae'r cofrestr yn cynnwys yr wybodaeth:

- Rhif y safle
- Enw'r safle
- Arwynebedd y safle (mewn hectar)
- Defnydd arfaethedig arfaethedig
- Cynllun o'r safle

Ni ddylid dehongli hyn fel ymrwymiad gan y ddau Gyngor i fynd â'r safleoedd hyn ymlaen i'r CDLI ar y Cyd. Gellir gweld y Gofrestr ar wefannau'r ddau Gyngor yn: www.gwynedd.gov.uk/safleoedd_posib neu www.ynysmon.gov.uk/safleoedd_posib


Nodwch fod y cyfnod ar gyfer awgrymu safleoedd i'w cynnwys yn y Cynllun wedi cau'n swyddogol bellach, er mwyn gadael digon o amser i asesu'r safleoedd a pharatoi'r CDLI ar y Cyd. Ni roddir ystyriaeth i gyflwyniadau hwyr dim ond os gellir cynnal yr ymgynghoriad ar amser. Cynghorir unrhyw rai sydd â diddordeb i gyflwyno safleoedd ychwanegol i'r UPC ar y Cyd cyn gynted â phosib.

Datblygwyd methodoleg yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn asesu pa mor addas yw'r safleoedd hyn. Ar hyn o bryd mae'r holl safleoedd a gyflwynwyd fel rhan o'r broses yn cael eu hasesu yn erbyn y fethodoleg er mwyn sicrhau bod tir a ddyrennir yn y CDLI ar y Cyd yn addas ac yn gynaliadwy i'w ddatblygu. I asesu eu haddasrwydd, mae'r UPC ar y Cyd yn ymgynghori â budd-ddeiliaid allweddol e.e. Asiantaeth yr Amgylchedd, Dŵr Cymru, ac Unedau Bioamrywiaeth y ddau Gyngor. Disgwylir y bydd 'safleoedd strategol / allweddol' yn cael eu dangos yn fras yn fersiwn y Strategaeth a Ffafirir o'r CDLI ar y Cyd.

Os yw eich safle'n llwyddiannus, caiff ei ddangos yn y Cynllun Adneuo fel "dyrnaid" neu o bosib ei nodi fel safle sy'n addas i ddibenion datblygu eraill.

Os yw'ch safle'n aflwyddiannus, ac na chaiff ei gynnwys yn y Cynllun Adneuo, a'ch bod yn dymuno gwrthwynebu i hyn, gallwch ddweud pam wrthym yn ystod y cam ymgynghori ar y Cynllun Adneuo. Cewch ailgyflwyno eich safle, neu gynnig un newydd yn ystod y cam hwn. Bydd Cofrestr Safleoedd Amgen fydd yn cynnwys yr holl safleoedd arfaethedig i'w cynnwys, eu haddasu ac/neu eu dileu o'r Cynllun Adneuo ar gael, fydd yn destun chwe wythnos o ymgynghoriad (Cam 4a yn ffigwr).

Mae'r penderfyniad terfynol ar ba safleoedd fydd yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol yn nwylo Arolygydd Cynllunio Annibynnol – nid y Cynghorau.



6. Astudiaethau Cefndir

Mae'r UPC ar y Cyd yn cynnal nifer o astudiaethau cefndir er mwyn cael gwybodaeth fydd yn gymorth wrth wneud penderfyniadau yn ystod y broses CDLI ar y Cyd. Mae'r astudiaethau hyn yn cynnwys yr isod:

Adolygiad Tir Cyflogaeth

Fe gomisiynodd yr UPC ar y Cyd astudiaeth oedd yn asesu'r galw am dir cyflogaeth yn ardal y Cynllun. Mae'r adroddiad yn rhoi cyngor ar yr angen i warchod tir cyflogaeth presennol a'r angen i adnabod mwy o dir cyflogaeth mewn rhai ardaloedd, a bydd yn cael ei ddefnyddio wrth ddatblygu polisiau priodol yn y dyfodol. Gellir gweld copi o gynodeb gweithredol o'r adroddiad ar wefan pob Cyngor, ynghyd â chanllawiau ar sut i gael copi o'r adroddiad llawn ar www.gwynedd.gov.uk neu www.ynysmon.gov.uk




Asesiad Hyfywra Tai Fforddiadwy

Rhaid i'r Cynghorau sicrhau bod unrhyw dargedau neu drothwyon â osodir ar gyfer tai fforddiadwy yn hyfyw, i sicrhau nad yw tai fforddiadwy yn cael effaith andwyol ar allu darparu tai. Mae'r UPC ar y Cyd wedi comisiynu astudiaeth. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn ystod mis Hydref 2012.

Astudiaeth Angen Manwerthu

Mae'r UPC ar y Cyd wedi comisiynu astudiaeth sy'n cynnwys adolygu'r angen am ddyraniadau manwerthu yn seiliedig ar asesiad o berfformiad manwerthu, rhagolygon ar gyfer manwerthu, ac asesiad o ganol trefi presennol. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn ystod mis Medi 2012.



Astudiaeth Flynyddol ar y Cyd ar Argaeledd Tir ar gyfer Tai

Cynhelir Astudiaethau ar y Cyd ar Argaeledd Tir ar gyfer Tai (JHLAS) yn flynyddol er mwyn monitro'r holl dir sydd un ai wedi'i ddyrannu yn y cynllun datblygu mabwysiedig, neu sydd â chaniatâd cynllunio cyfredol arno am dai. Mae'r astudiaethau'n darparu gwybodaeth am le mae tai'n cael eu hadeiladu, yn asesu pa mor sydyn mae safleoedd tai yn debygol o gael eu datblygu, ac yn amcangyfrif sawl blwyddyn o dir ar gyfer tai sydd ar gael, yn seiliedig ar dargedau'r cynllun datblygu. Mae astudiaeth JHLAS 2011 Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd yn dangos fod ganddo werth 5 mlynedd o dir ar gyfer tai (yn seiliedig ar ofynion cyfredol CDU Gwynedd). Mae astudiaeth JHLAS 2011 Ynys Môn yn dangos fod ganddo werth 5.1 mlynedd o dir ar gyfer tai (yn seiliedig ar gyfraddau cwblhau'r gorffennol). Gellir gweld yr astudiaethau JHLAS ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk



Astudiaeth Capasiti Trefol

Mae'r UPC ar y Cyd wedi cynnal darn o waith i archwilio argaeledd posib rhai safleoedd a allai ddarparu cyfleoedd datblygu o fewn ffurf adeil-edig y prif aneddeleoedd. Bydd hwn yn ffynhonnell wybodaeth ychwanegol fydd yn ategu'r Gofrestr Safleoedd Posib. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn ystod mis Medi 2012



Astudiaeth o Gapasiti Ynni Adnewyddadwy

Mae'r UPC ar y Cyd wedi comisiynu astudiaeth sy'n golygu defnyddio pecyn a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru i adnabod cyfleoedd a chyfyngiadau yng nghyswllt defnyddio amrywiol dechnolegau ynni adnewyddadwy ar y tir. Cyhoeddir yr adroddiad yn ystod mis Medi 2012, a bydd yn bwydo i mewn i'r CDLI ar y Cyd arfaethedig.

Asesiad Risg Llifogydd Strategol


Mae'r UPC ar y Cyd wrthi'n cynnal asesiad strategol eang o risg llifogydd (Lefel 1), sy'n cynnwys adolygu'r wybodaeth a'r data cyfredol am llifogydd yn yr ardal. Bydd yr Uned yn cysylltu ag Asiantaeth yr Amgylchedd cyn cwblhau a chyhoeddi'r astudiaeth yn ystod mis Medi 2012. Hwyrach y bydd gofyn cael Asesiad Risg Llifogydd Strategol Lefel 2. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gomisiynu a'i gynnal fel mae NCT 15 yn ei argymhell, gan ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd.

Mapio Sensitifrwydd Bioamrywiaeth

Mae'r UPC ar y Cyd wedi comisiynu'r Ganolfan Gofnodion Leol i gynnal astudiaeth sy'n defnyddio gwybodaeth leol i ddod i gasgliad ynghylch gwerth bioamrywiaeth tir y tu mewn a thu allan i brif aneddiadau. Bydd mapiau sy'n dangos y casgliadau yn cael eu cyhoeddi erbyn mis Medi 2012, a byddant yn bwydo i mewn i'r CDLI ar y Cyd arfaethedig.

Astudiaeth Ardaloedd Tirwedd Arbennig

Mae'r UPC ar y Cyd wedi comisiynu astudiaeth i adolygu Ardaloedd Cymeriad y Dirwedd ac Ardaloedd Tirweddau Arbennig yn seiliedig ar y wybodaeth LANDMAP ddiweddaraf. Cyhoeddir yr adroddiad yn ystod mis Medi 2012, a bydd yn bwydo i mewn i'r CDLI ar y Cyd arfaethedig.



Papurau Pwnc

Mae'r UPC ar y Cyd hefyd yn adolygu data a gwybodaeth gyfredol am feysydd pwnc eraill, er mwyn deall yr ardal yn well ac adnabod materion y mae angen i'r CDLI ar y Cyd eu tacio. Mae'r pynciau'n cynnwys twristiaeth, cludiant, isadeil-edd, cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, y boblogaeth a thai.

Safleoedd Bywyd Gwyllt Posib (Gwynedd)

Mae Cyngor Gwynedd wedi penodi ymgynghorwyr i gynnal adolygiad o nifer o Safleoedd Bywyd Gwyllt Posib. Safleoedd yw'r rhain sy'n deilwng o gael gwarchodaeth arbennig oherwydd eu pwysigrwydd yn lleol i blanhigion ac anifeiliaid. Bydd cam cyntaf yr astudiaeth yn asesu safleoedd bywyd gwyllt posib sydd wedi'u lleoli ger y prif aneddiadau, i bennu p'un a ydynt yn addas i'w gwarchod ai peidio. Mae tua 1,300 o safleoedd bywyd gwyllt posib i gyd. Bydd yr holl wybodaeth a gesglir yn bwydo i mewn i'r CDLI ar y Cyd arfaethedig.

Bydd cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu, gan gynnwys cyfarfodydd gyda budd-ddeiliaid allweddol perthnasol, yn cael eu defnyddio i hyrwyddo'r adroddiadau technegol am yr amrywiol astudiaethau a phapurau pwnc. Bydd y cyfnod ymgysylltu yn gymorth i wirio'r wybodaeth, ac i ddatblygu polisiâu a pharatoi'r Cynllun. Cadwch lygad ar wefan CDLI ar y Cyd pob Cyngor i ganfod mwy am y dogfennau hyn.

7. Asesiadau Amrywiol

Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Arfarniad Cynladwyedd

Mae'n ofynnol i'r Cynghorau baratoi'r CDLI ar y Cyd gyda'r nod o gyfrannu at gyflawni datblygiadau sy'n gynaliadwy. Wrth wraidd datblygu cynaliadwy mae'r syniad syml o sicrhau gwell ansawdd bywyd i bawb, nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae gofyn cael Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) ac Arfarniad Cynladwyedd (AC) integredig o'r CDLI ar y Cyd. Bydd yr AAS/AC yn cael eu defnyddio i helpu i lunio'r Strategaeth a Ffafir. Mae'r AAS/AC yn ystyried goblygiadau cynladwyedd y CDLI ar y Cyd yn nhermau'r effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd.

Cynhyrchwyd Adroddiad Sgopio, a'i ddiben oedd adnabod y materion allweddol yn Gwynedd a Môn, y dull y dylai'r AC ei fabwysiadu h.y. y fframwaith AC, a'r materion a ddylai gael sylw yn yr AC. Anfonwyd Adroddiad Sgopio drafft allan i ymgynghori arno – gyda chymorth y Grŵp Tasg AC, ac mae mewnbwn y Grŵp wedi'i ymgorffori yn yr AC. Gellir gweld copïau o'r Adroddiad Sgopio drafft yn Neuadd y Dref, Bangor ac ar wefannau'r Cynghorau. www.gwynedd.gov.uk neu www.ynysmon.gov.uk



Asesiad Effaith Iechyd

Mae Asesiad Effaith Iechyd yn cael ei gynnal i asesu unrhyw effaith bosib allai godi o'r Strategaeth a Ffafir (Drafft) ar iechyd a lles pobl, er mwyn lleihau unrhyw effaith negyddol a rhoi mwy o gyfleoedd i bobl wella eu hiechyd. Gellir gweld manylion am y fethodoleg a ddefnyddir a'r canlyniadau hyd yma ar wefannau'r ddau Gyngor.

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Yn unol â Chyfarwyddeb Cynefinoedd 92/43/EEC, dylid asesu unrhyw effeithiau allai ddeillio o gynllun defnydd tir ar amcanion cadwraeth unrhyw Safle Ewropeaidd, drwy gyfrwng Asesiad Priodol. Mae'r cam cyntaf yn cynnwys gwneud adroddiad sgrinio o effeithiau sylweddol tebygol y Strategaeth a Ffafir (fersiwn drafft).

Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Mae dyletswydd statudol ar y Cynghorau i ystyried yn ofalus anghenion a gofynion y gymuned sy'n cael ei heffeithio gan eu polisiâu a'u gweithdrefnau. Cynhelir Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar adegau allweddol i gyfrannu at ddatblygiad y Cynllun, ac asesu unrhyw effaith allai ei gael ar hil, rhyw, rhywioldeb, anabledd, crefydd, cred/anghred, ac oedran. Bydd yr effaith ar yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig yn cael ei hasesu ar wahân. Gellir gweld gwybodaeth am y pwnc ac am y fethodoleg fydd yn cael ei defnyddio ar wefan pob Cyngor sef : www.gwynedd.gov.uk neu www.ynysmon.gov.uk

Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Mae Adroddiad Sgopio'r AC/AEA ac asesiad y CDLI ar y Cyd o faterion sydd angen mynd i'r afael â hwy wedi nodi pwysigrwydd yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig i gymunedau yn ardal y Cynllun. Mae dyletswydd statudol ar y Cynghorau felly i ystyried yn ofalus sut gall y CDLI ar y Cyd helpu i sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn medru ffynnu yn yr ardal. Gellir gweld gwybodaeth am y pwnc ac am y fethodoleg fydd yn cael ei defnyddio ar wefan pob Cyngor cyfeiriad.

8. Camau Nesaf

Y bwriad i'w i gwblhau camau 1 a 2 erbyn diwedd 2012 a cyhoeddi dogfen Strategaeth a Ffafir yn amlinellu:

- Gweledigaeth ac Amcanion y CDLI ar y Cyd
- Opsiynau strategaeth
- Strategaeth a Ffafir a dde-wiswyd fydd yn cynnwys polisiâu strategol ac ad-nabyddiaeth o ardaloedd eang o archwiliad am strategol / safleoedd allweddol yn ac o gwmpas anheddiadau pennaf

Bydd y cyfnod ymgynghori o chwech wythnos yn digwydd yn Ionawr 2013 a dim yn y hydref 2012 fel ddangosir yn y Cytundeb Cyflawni. Bydd y ddau Gyngor yn sirchau fydd y llithrad bychan yma yn cael ei amsugno i fewn i'r amserlen a gytunwyd a ddim yn arwain i oediad targed dyddiad mabwysiadu fel a amlinellwyd yn y Cytundeb Cyflawni.

Bydd nifer o digwyddiadau ymgynghori yn cymeryd lle yn ystod cyfnod ymgynghori, fe fydd manylion yn cael eu cyhoeddi yn nes at yr amser. Bydd hyn yn creu cyfle i yrru sylwadau ar dde-wis Strategaeth a Ffafir, Gweledigaeth ac Amcanion, ac i ddylynwadu ar y CDLI ar y Cyd



9. Hoffech chi wybod mwy?

Pe baech angen mwy o wybodaeth neu os hoffech edrych ar unrhyw un o ddogfennau cyflawn y CDLI ar y Cyd, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni ar y manylion isod:

Os nad ydych ar y rhestr ddsbarthu eisoes, ac os hoffech gael eich ychwanegu at y rhestr, cysylltwch â'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd. Rhwch eich cyfeiriad e-bost os yw hynny'n bosib os gwelwch yn dda.



www.ynysmon.gov.uk
www.gwynedd.gov.uk



poliscynllunio@gwynedd.gov.uk



Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Môn a Gwynedd
Neuadd y Dref
Bangor
Gwynedd. LL57 1DT



(01286) 685003 neu (01766) 771000

10. Cyhoeddiad Nesaf

Ionawr 2013 i gyd-fynd â'r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffafir.



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL